Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2022/2023

Trefniant Y cyngor

Cynghorwyr:

Clwt y Bont -	Dawn Parry
Dinorwig -	Ynyr Parri
Deiniolen -	Parch Canon Idris Thomas, Emma Chappell, (Cadeirydd) Elfed Wyn Williams, Richard Jones
Penisa'r-waun -	Phyllis Ellis, Elwyn Jones
Brynrefail -	Ellen George
Bethel -	Gareth Wyn Griffiths Jane Pierce Sasha Williams 1 sedd Wag
Rhiwlas -	Rhian Evans-Hill Lowri James

Is Bwyllgorau:
Llwybrau: Jane Pierce, Phyllis Ellis, Dawn Parry a Lowri James
Dros y Clerc: Gareth Wyn Griffiths, Phyllis Ellis, Rhian Evans-Hill
Prosiect Mapiau: Phyllis Ellis, Sasha Williams, Emma Chappell
Byddwn yn ffurfio Is bwyllgorau eraill os bydd yr angen

Cynrychiolaeth:
Lywodraethwyr Ysgolion: Phyllis Ellis, Elfed Wyn Williams
Parc Cenedlaethol: Rhian Evans Hill
Grŵp Ffocws Llechi: Parchg Idris Thomas
Unllais Arfon a Dwyfor: Ynyr Parri.
Neuadd Rhiwlas: Lowri Ann James
Gwefan: https://cyngorllanddeiniolen.cymru

Cynhelir Cyfarfodydd Cyngor yn Ystafell Gymuned, Ysgol Penisa'r-waun ar nos Fawrth cyntaf o bob mis, ar wahân i fis Awst, lle nad oes cyfarfod, ac eithriad mis Ionawr, dibynnu ar ddyddiad. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd yma, Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r clerc.

Gwybodaeth Ariannol

Praesept ariannol y Cyngor eleni oedd £31,800. Ar gyfartaledd mae hyn yn gost o tua £17.27 y tŷ i dai Band D. Eleni, mae'r Cyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn cadw'r praesept run fath ar £31,800. Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn derbyn archwiliad mewnol gan Gyngor Gwynedd ynghyd ac archwiliad allanol gan Awdit Cymru.
Gweler mantolen ariannol sydd yn dangos derbyniadau a gwariant y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gweithgareddau'r Cyngor

Prif ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yw Llwybrau, Cysgodfan Bws, rhoi barn ar geisiadau cynllunio'r ardal, a thynnu i sylw Cyngor Gwynedd unrhyw ddiffygion, neu faterion sy'n rhwystr yn yr ardal. Eleni, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido Dau Glwb Ieuenctid yn yr ardal. 1 ym Methel a llall yn Neiniolen. Felly o ystyried hyn, dyma adroddiad o weithgareddau'r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Llwybrau
Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor wedi penderfynu ers 2 flynedd ein bod wedi neilltuo £30,000 o gyllid i wella cyflwr llwybrau'r fro. Yn dilyn hir gerdded y llwybrau gyda swyddogion Cyngor Gwynedd, mae amcan brisiau bellach yn ein cyrraedd i allu cyflawni hyn. Felly, yn ystod y misoedd nesaf, bydd o bosib ambell i lwybr ar gau yn yr ardal tra bod y gwelliannau yn mynd ymlaen.
Rydym fel yr arfer yn torri'r llwybrau ddwywaith neu dair bellach yn ystod misoedd yr haf, ynghyd a pheintio a chynnal a chadw'r meinciau o gwmpas yr ardal.

Un peth sydd yn peri pryder i ni gyd ydi BAW CI. Mae'n amhosib i ni gadw ein pentrefi yn lân a thaclus tra mae perchnogion cŵn yn mynnu peidio codi baw eu ci. Mae yna finiau baw ci ym mhob ardal, defnyddiwch hyw os gwelwch yn dda.
Goryrru yn broblem arall mewn sawl pentref. Rydym yn ceisio cofnodi materion yma er mwyn bod gyda thystiolaeth o'r angen am ramp arafu.

Cysodfannau Bws
Mae'r Cyngor eisoes wedi gosod cysgodfan Bws o'r Newydd ym Mrynrefail. Mae angen ychydig o addasiad i'r gysgodfan, megis ffenestr yn y cefn a gwell cysgod i'r ffrynt, ond mae'r Cyngor yn gweithio ar hyn. Bydd Cysgodfan Newydd yn cael ei gosod yng ngwaelod Bethel hefyd, lle bu i seddi gael ei malurio, a hynny wedyn yn gwneud y gysgodfan yn fregus. Penderfynwyd creu un Newydd, a bydd yn cael ei gosod yno yn ystod y misoedd nesaf.

Clybiau Ieuenctid
Yn dilyn cychwyn ar y clybiau Ieuenctid fis Medi, mae yn edrych fel eu bod wedi creu llawer o ddiddordeb ym mysg y bobl ifanc. Mae'r adroddiadau yn arwain at lwyddiant, ac mae'r clybiau yn dal i ffynnu. Mae'n amlwg fod nifer o weithgareddau gwahanol yn wythnosol a thymhorol, a bod yna 2 drip allanol wedi ei drefnu. Bydd y Cyngor yn cario blaen i ariannu'r clybiau eto eleni.

Map Enwogion y Plwyf
Yn dilyn llwyddiant rai blynyddoedd yn ôl o'r map llwybrau cyhoeddus, penderfynwyd fod angen map o enwogion yr ardal i gyd fynd a map y llwybrau, a gweithio ar hanes mwy manwl o bobl yr ardal. Yn dilyn rhyw flwyddyn a hanner o weithio gyda'r arbenigwr Gareth Roberts, mae'r map bron iawn yn barod i'w argraffu, ac felly bydd lansio hwn yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

Cynllunio
Yn wythnosol, rydym yn derbyn ceisiadau cynllunio o Gyngor Gwynedd, lle gofynnir i'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y ceisiadau hyn. Er bod cynghorwyr yn ymweld â'r safleoedd yma, i ryw raddau rydym yn ddibynnol arnoch chi fel trigolion i ddod a phryderon neu wrthwynebiadau a syniadau i ni. Cofiwch eich ardal chi ydy hi, os allwn helpu, cysylltwch gyda chynghorwyr eich pentref, neu anfonwch e-bost i sylw'r clerc.

Rhoddion
Yn flynyddol, mae'r Cyngor Cymuned yn rhannu rhoddion yn dilyn derbyn ceisiadau gan fudiadau o fewn y plwyf. Mae'r ceisiadau i gyrraedd y clerc ynghyd a mantolen ariannol gyfredol, erbyn 30ain Fedi yn flynyddol.
Eleni, cyfrannwyd rhoddion i:
Neuadd Bentref Rhiwlas, Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun, Clwb Bowlio Bethel, Clwb Snwcer Bethel. Clwb Snwcer Deiniolen, Seindorf Arian Deiniolen, Pêl Droed Ieuenctid Bethel, Llais Ogwen, Eisteddfod Bentref Bethel, Clwb Crefft Rhiwlas, Cyfeillion Rhiwlas, cylch Meithrin Deiniolen, Eisteddfod Undebol Penisa'r-waun, Neuadd Goffa Bethel, Goleuadau Gŵyl Deiniolen, Grŵp Cymunedol Brynrefail.

Amcanion Y Cyngor am 2022/2023
Eleni, bydd Y Cyngor yn canolbwyntio ar gwblhau'r prosiectau sydd wedi eu nodi.
Mae'r Cyngor Cymuned yn rhoi Cofnodion pob cyfarfod ar ein gwefan a hefyd yn rhoi crynodeb o'r cofnodion yn Eco'r Wyddfa a Llais Ogwen yn fisol.
Estynnir croeso i unrhyw un sydd am fwy o fanylion i gysylltu â'r clerc, neu anfon neges os gallwn fod o gymorth i chi yn yr ardal.